Senedd Cymru / Welsh Parliament
Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 / Welsh Government Draft Budget 2021-22
WGDB_21-22 02
Hafal

# Cynigion Cyllideb Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

## *Ymateb gan Hafal*

## 1 Amdanom Ni

**1.1** Mae Hafal yn elusen ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd yn siarad ar ran pobl yng Nghymru sydd ag afiechyd meddwl difrifol (gan gynnwys sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol a chyflyrau eraill gan gynnwys seicosis neu'n colli dealltwriaeth), eu teuluoedd a gofalwyr, ac ar gyfer grŵp ehangach o bobl fregus yr ydym yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

**1.2** Mae Hafal yn cael ei lywodraethu gan ei Aelodau – mwy na 1,500 o bobl sydd yn bennaf yn ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn ofalwyr – sydd yn ethol ein Hymddiriedolwyr, sydd eto yn ddefnyddwyr gwasanaeth neu'n ofalwyr ar y cyfan. Rydym yn rheoli gwasanaethau ym mhob un o'r 22 sir yng Nghymru sydd yn cefnogi mwy na 6,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr bob blwyddyn. Mae nifer o'n 420 staff hefyd wedi profi afiechyd meddwl.

## 2. Ymateb i gynigion y Gyllideb Drafft

**2.1** *Mae angen gosod y gyllideb ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar lefel dipyn yn uwch* – a hynny'n bennaf er mwyn ymateb i'r pwysau cynyddol a pharhaus ar wasanaethau iechyd meddwl sydd wedi ei achosi gan y pandemig Covid-19. Mae yna angen aciwt wedi bod ers sbel am fwy o adnoddau yng Nghymru er mwyn darparu triniaeth effeithiol ac amserol ar gyfer afiechyd meddwl difrifol. Mae'r angen yma wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy yn ystod y pandemig pan ein bod wedi gweld cymorth hanfodol i bobl sydd yn derbyn gwasanaethau eilaidd yn cael ei gwtogi'n sylweddol, gan greu mwy o risg o ddirywiad neu argyfwng.

**2.2** Dylid neilltuo cyfran set o'r cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer iechyd meddwl, a dylid ehangu ar y gyfran yma fel sydd angen er mwyn sicrhau cydraddoldeb gyda'r anghenion iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

**2.3** Ni ddylid defnyddio cyllid ar gyfer iechyd meddwl at ddibenion eraill fel cefnogi'r cyfrifoldebau sydd gan wasanaethau cyffredinol i ddiogelu iechyd meddwl eu cleientiaid. Y flaenoriaeth yw cynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau eilaidd - ac mae rhaid monitro hyn yn agos fel nad yw'r gyllideb iechyd meddwl yn cael ei gwario ar ofal lefel-is, naill ai tu mewn neu y tu allan i'r hyn sydd wedi ei glustnodi.

**2.4** Dylid sicrhau gwerth am arian drwy gomisiynu gwasanaethau sydd yn hollol seiliedig ar anghenion cleifion. Mae'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth eilaidd yn meddu ar yr hawl i gael cynllun gofal sydd yn amlinellu'r gefnogaeth sydd angen arnynt er mwyn gwella. Dylai'r cynlluniau yma bennu'r hyn sydd angen ei gomisiynu a'r adnoddau sydd angen ar lefel eilaidd – bydd hyn yn sicrhau bod y gwasanaethau yn canoli ar y person ac yn gost-effeithiol.

**2.5** Mae angen trothwy clir ar gyfer atgyfeirio pobl at wasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Er ein bod yn croesawu'r gydnabyddiaeth ddiweddar bod iechyd meddwl yn rhywbeth ar gyfer pawb, nid yw hyn yn golygu y dylai gwasanaethau iechyd meddwl ehangu eu rôl. Dylai gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol roi blaenoriaeth i'r sawl sydd â'r anghenion mwyaf, yn cefnogi'r cleifion hynny sydd yn defnyddio gwasanaethau lefel-uwch ( a mwy costus) i sicrhau adferiad a'u bod yn symud i lawr i wasanaethau cymorth lefel-is, gan mai hyn fydd yn cael yr effaith fwyaf o ran gwella bywydau pobl – a lleihau cost eu gofal a'u triniaeth. Os oes yna ddiffyg eglurder ynglŷn â'r hyn yw gwasanaeth iechyd meddwl, yna nid oes pwynt diogelu'r arian gan y bydd atgyfeiriadau amhriodol yn tanseilio unrhyw gyllid a/neu bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ariannu cyfrifoldebau bugeiliol asiantaethau eraill (e.e. gweithgareddau llesiant, cwnselwyr ysgol ayyb.).

**2.6** Fodd bynnag, gan fod iechyd meddwl a llesiant yn berthnasol i nifer o feysydd sydd yn rhan o'r gyllideb gyffredinol, efallai bod yna ddadl i gyfuno'r cyllidebau eraill er mwyn ariannu'r cymorth perthnasol (e.e. gwasanaethau ieuenctid) na sydd yn cael ei ddarparu gan wasanaethau iechyd meddwl – er *na* ddylid tynnu'r arian hwn o'r swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer iechyd meddwl. Byddai hyn yn anfoesol ac yn gam gwael i ehangu gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn ymgymryd â'r gwaith llesiant cyffredinol hwn.

# 3. Cyswllt

Am fwy o wybodaeth ar y pwyntiau uchod, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Matt Pearce
Pennaeth Cyfathrebu

**Hafal**
**Prif Swyddfa Hafal**
Uned B3, Parc Technoleg Lakeside
Ffordd y Ffenics, Llansamlet
Abertawe SA7 9FE
**Gwe:** www.hafal.org
**E-bost:** matthew.pearce@hafal.org